*This document is available in English* **Eitem Agenda 5**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Archwiliad o Asesiad Perfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2024/25** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ganlyniad yr archwiliad allanol ar Asesiad yr Awdurdod o Berfformiad 2024-25, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

- wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- wrth gyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a dangosyddion perfformiad y mae wedi'u pennu ei hun; ac
- wrth fodloni unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad y mae wedi'u pennu ei hun.

3 Cyflwynwyd yr Asesiad o'r Perfformiad Blynyddol i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Hydref 2025.

4 Mae'r mesurau gwella yn ddarostyngedig i archwiliad gan Archwilio Cymru, yn unol ag adran 17 y Mesur, a Chod Ymarfer Archwilio Archwilio Cymru.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) Nodi'r llythyr archwilio sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.**

**CEFNDIR**

5 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn yr un y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi.

**GWYBODAETH**

6 Mae'r llythyr archwilio a nodir yn Atodiad 1 yn cadarnhau bod Archwilio Cymru wedi gorffen ei waith a'i fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| Cyllideb | Dim – gweithgaredd hanesyddol |
| Cyfreithiol | Mae adroddiad Archwilio Cymru yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldebau/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Dim |